Ymgynghoriad Cyhoeddus

# Gwerthuso Safleoedd

## Sut byddwn yn gwerthuso safleoedd yng Nghymru



Radioactive Waste Management

Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu'r dyfodol

Fersiwn C1

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ... 3
Ymgynghoriad ... 3
Cefndir ... 3
Gofynion ... 5
Gofynion y Broses Leoli ... 5
Gofynion Cyfreithiol ... 5
Rhychwant Tiriogaethol ... 6

**2. Ymateb i'r Gofynion** ... 7
Gofynion y Broses Leoli ... 7
Gofynion Cyfreithiol ... 9
Manyleb System Waredu 10RWM ... 10

**3. Gwerthuso Safleoedd – Ffactorau ac Ystyriaethau** ... 11
Pwrpas y Ddogfen Ymgynghori ... 11
Strwythur y Ddogfen Ymgynghori ... 11
Ffactorau Lleoli ... 11
Ystyriaethau Gwerthuso ... 13

**4. Rhoi Polisi'r Llywodraeth Ar Waith** ... 20
Gyrru'r Broses Leoli yn ei Blaen ... 20
Trafodaethau Cychwynnol ... 21
Gweithgor ... 21
Partneriaeth Gymunedol – Ymchwiliadau Anymwthiol ... 21
Partneriaeth Gymunedol - Adeiladu ac Ymchwiliadau Tyllau Turio Dwfn ... 21

**5. Asesiadau Cymharol** ... 23

**6. Goruchwylio a Chraffu** ... 24

**7. Sut Mae Cymryd Rhan** ... 25
Sut Mae Ymateb ... 25
Cyfrinachedd a Diogelu Data ... 25
Dull o Ymgynghori ... 25
Cwestiynau'r Ymgynghoriad ... 26

**Geirfa** ... 27

**Atodiad A – Gweinyddiaethau Datganoledig** ... 28

**Atodiad B – Gofynion Cyfreithiol** ... 29
Cynllunio Defnydd Tir ... 29
Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ... 30
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ... 30
Trwyddedu Safle Niwclear ... 31
Trwyddedu Amgylcheddol ... 31

# 1 1 Cyflwyniad

## Ymgynghori

**1.1.** Mae'r ddogfen ymgynghori hon, Gwerthuso Safleoedd – sut byddwn yn gwerthuso safleoedd ("y ddogfen ymgynghori"), wedi cael ei ddatblygu gan Radioactive Waste Management Ltd ("RWM") i gasglu ynghyd y prif bolisïau perthnasol sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol a fydd yn berthnasol ar wahanol adegau drwy gydol y Broses Leoli, a hynny i gefnogi dull cyson a dealladwy o werthuso safleoedd a allai fod yn addas i gynnig lleoliad i Gyfleuster Gwaredu Daearegol.

**1.2.** Dyma strwythur y ddogfen ymgynghori hon:

- Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno ein hymgynghoriad, yn trafod cefndir y ddogfen ymgynghori ac yn esbonio rhychwant tiriogaethol y ddogfen hon.
- Yn Adran 2 rydym yn esbonio cyd-destun ein dogfen ymgynghori ac yn esbonio sut mae cyfres o ofynion sylfaenol wedi dylanwadu ar ein dewis o gyfres o Ffactorau Lleoli ac Ystyriaethau Gwerthuso y byddwn yn eu defnyddio wrth werthuso safleoedd.
- Yn Adran 3 rydym yn trafod pwrpas y ddogfen ymgynghori ac yn cyflwyno ein Ffactorau Lleoli ac Ystyriaethau Gwerthuso.
- Mae Adran 4 yn disgrifio sut bydd RWM yn rhoi polisi'r Llywodraeth ar gyfer Proses Leoli ar waith.
- Yn Adran 5 rydym yn esbonio sut bydd RWM yn cynnal Asesiadau Cymharol rhwng gwahanol safleoedd os oes angen. Rydym yn nodi sut bydd ein gwaith yn destun goruchwylio a chraffu priodol yn Adran 6.
- Yn Adran 7 rydym yn esbonio sut mae cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac yn cyflwyno'r cwestiynau rydym wedi eu gofyn.
- Rydym hefyd wedi cynnwys dau Atodiad sy'n darparu manylion ychwanegol am amrywiol faterion sy'n cael eu trafod yn y ddogfen ymgynghori.

**1.3.** Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 14 Ebrill 2019. I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan – **gwaredu daearegol**

**1.4.** Hoffem gael eich barn ar lawer o bynciau yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r rhain wedi'u cynnwys fel cwestiynau drwy'r ddogfen ymgynghori hon drwyddi draw. Yn benodol, hoffem gael adborth ar sut rydym wedi defnyddio'r gofynion i ddylanwadu ar ein gwaith o nodi'r chwe Ffactor Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso sylfaenol y byddwn yn eu defnyddio i ddylanwadu ar ein gwerthusiad o ardaloedd a safleoedd.

**1.5.** Byddwn yn trefnu nifer o ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd unrhyw un â diddordeb yn gallu dod i'r rhain, lle bydd aelodau o'n tîm yn bresennol i drafod y ddogfen ymgynghori ac i ateb unrhyw gwestiynau amdani. Caiff manylion y digwyddiadau hyn eu cyhoeddi ar ein gwefan – **gwaredu daearegol**

**1.6.** Byddwn yn ystyried pob ymateb i'r ymgynghoriad yn ofalus ac yn eu defnyddio i helpu i ddatblygu ein dull. Os caiff caniatâd ei roi, bydd crynodeb o'r holl ymatebion a ddaw i law yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.

## Y Cefndir

**1.7.** Fel arloeswr ym maes technoleg niwclear, mae deunydd a gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd wedi cronni yn y DU dros amser. Mae hwn yn cael ei storio'n ddiogel ar sail dros dro mewn safleoedd niwclear ar draws y wlad. Caiff mwy ei gynhyrchu wrth i gyfleusterau presennol ddod i ddiwedd eu hoes a chael eu datgomisiynu a'u glanhau, a drwy weithredu a datgomisiynu gorsafoedd pŵer niwclear newydd.

**1.8.** Ar ben y gwastraff sy'n bodoli eisoes, mae rhywfaint o ddeunydd ymbelydrol nad yw'n cael ei ystyried yn wastraff ar hyn o bryd ond, pe penderfynir ar ryw adeg nad oes rhagor o ddefnydd iddynt, byddai'n rhaid eu rheoli fel gwastraff drwy waredu daearegol. Mae'r rhain yn cynnwys tanwydd wedi'i ddefnyddio (gan gynnwys tanwydd wedi'i ddefnyddio o orsafoedd pŵer niwclear newydd), plwtoniwm ac wraniwm.

**1.9.** Mae RWM, sef y cwmni sy'n gyfrifol am waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn ddaearegol, yn is-gwmni sydd o dan berchnogaeth lwyr yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ("NDA").


# 1. Cyflwyniad

**1.10.** Mae polisi Llywodraeth Cymru[1 2 3] yn rhagweld y bydd RWM yn gweithredu fel datblygwr Cyfleuster Gwaredu Daearegol ar gyfer gwastraff o'r fath. O ganlyniad, bydd RWM yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith o leoli, adeiladu, gweithredu ac, yn y pen draw, cau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cydymffurfio â safonau uchel y DU o ran diogelwch ac amddiffyn yr amgylchedd, yn ogystal â'r gofynion perthnasol sydd wedi'u nodi mewn dogfennau polisi perthnasol.

**1.11.** Mae gwaredu daearegol yn golygu rhoi gwastraff ymbelydrol yn ddwfn dan y ddaear i wneud yn siŵr bod y deunyddiau peryglus yn cael eu cadw ymhell oddi wrth bobl a'r amgylchedd, drwy ynysu a chadw'r gwastraff mewn amgylchedd daearegol addas am faint bynnag mae'n ei gymryd i'r ymbelydredd sy'n gysylltiedig â nhw leihau'n naturiol. Mae Ffigur 1 yn dangos delwedd ddangosol o sut bydd Cyfleuster Gwaredu Daearegol sy'n cynnwys gwastraff uwch ei actifedd yn y DU yn edrych efallai.

**1.12.** Cyfeirir at y gwastraff a fydd yn cael ei waredu mewn Cyfleuster Gwaredu Daearegol fel y cyflenwad gwaredu. Mae faint o wastraff a'r mathau ohono sydd yn y cyflenwad gwaredu hwn yn bwysig oherwydd bydd yn rhaid teilwra cynllun a dyluniad unrhyw gyfleuster gwaredu ar eu cyfer, ac oherwydd bydd cymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad i gyfleuster yn dymuno cael eglurder ynghylch pa wastraff fydd ynddo.

**Figure 1** Indicative image of a GDF



## Gofynion

**1.14.** Mae'n rhaid i gyfleuster gwaredu daearegol reoli cyflenwad gwaredu gwastraff uwch ei actifedd er mwyn diogelu pobl a'r amgylchedd, nawr ac yn y dyfodol.

[1] *Polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd – Llywodraeth Cymru [2015]*
[2] *Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Lleoli – Llywodraeth Cymru [Rhagfyr 2015]*
[3] *Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Gweithio gyda Chymunedau – Llywodraeth Cymru.*
[4] *Defnyddir y term awdurdod lleol drwy'r ddogfen hon – mae'n cyfeirio at y 22 awdurdod lleol unedol yng Nghymru:* ***http://www.gov.wales/topics/localgovernment/unitary-authorities/?lang=cy***

**1.15.** Mae hyn yn cael ei sicrhau drwy'r amrywiol ofynion sy'n cael eu gosod ar reoli sefydliadol, dewis a gwerthuso safleoedd a dylunio, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**1.16.** Mae'r gofynion hyn wedi'u nodi yn y Fanyleb System Waredu mae RWM wedi'i chyhoeddi[5] ("y Fanyleb").

**1.17.** Y Fanyleb ydy un o brif ddogfennau Achos Diogelwch System Waredu generig RWM[6]. Yn Adran 2 rydym yn esbonio ymhellach sut mae RWM yn defnyddio'r Fanyleb yn ei waith, sut mae'r Fanyleb yn casglu ynghyd y gofynion y bydd yn rhaid i gyfleuster gwaredu daearegol eu bodloni, a sut mae hyn hefyd wedi dylanwadu ar ein dewis o Ffactorau Lleoli ac Ystyriaethau Gwerthuso.

**1.18.** Mae'r ddogfen ymgynghori yn defnyddio gofynion gan ddwy brif ffynhonnell sydd eisoes ym Manyleb RWM neu a fydd yn y Fanyleb. Sef:

**Gofynion y Broses Leoli**

**1.19.** Mae'r gofynion hyn yn deillio o bolisi'r Llywodraeth, yn arbennig *Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Gweithio gyda Chymunedau* (y Polisi Gweithio gyda Chymunedau). Mae'r gofynion hyn yn ymwneud â'r polisi cyffredinol ar gyfer gwaredu daearegol, rôl RWM yn gweithredu gwaredu daearegol, a Phroses Leoli'r Llywodraeth y bydd RWM yn ei dilyn wrth ymgysylltu â chymunedau yn ystod y Broses Leoli. Cyfeirir at y gofynion hyn yn y ddogfen ymgynghori fel **"Gofynion y Broses Leoli"**.

**Gofynion Cyfreithiol**

**1.20.** Mae'r gofynion hyn yn deillio o'r prif offerynnau a threfniadau deddfwriaethol a rheoleiddiol (yn ogystal ag unrhyw ganllawiau cysylltiedig perthnasol ynghylch y trefniadau hynny) sy'n ymwneud â dylunio, asesu, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol, yn bennaf y gofynion hynny sy'n ymwneud â deddfwriaeth cynllunio defnydd tir, yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol[7], Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd[8], trwyddedu safle niwclear[9] a thrwyddedu amgylcheddol[10]. Cyfeirir at y gofynion hyn yn y ddogfen ymgynghori fel y **"Gofynion Cyfreithiol"**.

**1.21.** Yn y ddogfen ymgynghori rydym yn cyfeirio at Ofynion y Broses Leoli a'r Gofynion Cyfreithiol at ei gilydd fel **"y Gofynion"**.

**1.22.** Mae'r ddogfen ymgynghori wedi cael ei dylunio i grynhoi, mewn termau syml a dealladwy, y mathau eang o faterion y bydd yn rhaid i RWM eu hystyried yn ystod y Broses Leoli er mwyn cydymffurfio â'r holl Ofynion perthnasol, a galluogi RWM i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer gwneud ceisiadau am y prif gydsyniadau y bydd angen amdanynt i adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**1.23.** Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio cyflawni hyn drwy ddefnyddio'r Gofynion i ddylanwadu ar chwe Ffactor Lleoli eang, sef; Diogelwch, Cymuned, yr Amgylchedd, Ymarferoldeb peirianyddol, Trafnidiaeth, a Chost.

**1.24.** Cafodd y chwe Ffactor Lleoli hyn eu dewis i adlewyrchu'r hyn mae RWM yn ei gredu, ar sail prosiectau Cyfleuster Gwaredu Daearegol rhyngwladol a phrosiectau seilwaith yn y DU sy'n debyg o ran eu maint a'u cymhlethdod, sy'n debygol o fod y prif feysydd i ganolbwyntio arnynt wrth drafod â chymunedau sy'n cymryd rhan yn y Broses Leoli. Bwriad y chwe Ffactor Lleoli ydy helpu cymunedau i ddeall yr amrywiol faterion y bydd yn rhaid i RWM eu hystyried yn anochel wrth iddo werthuso pa mor addas ydy safleoedd i gynnig lleoliad i gyfleuster gwaredu daearegol yn unol â'r Gofynion perthnasol. Er mwyn darparu rhagor o eglurder ynghylch dull arfaethedig RWM o drin ei ddadansoddiadau lleoli a'i drafodaethau â chymunedau, mae'r Ffactorau Lleoli wedi cael eu rhannu ymhellach yn gyfres o "Ystyriaethau Gwerthuso" sy'n dod o dan bob Ffactor Lleoli. Ceir esboniad o'r rhain yn Adran 3.

[5] *Geological Disposal: Generic Disposal System Specification Part A: High Level Requirements 2016*

[6] *Mae'r Achos Diogelwch System Waredu generig yn gyfres o ddogfennau sy'n ystyried goblygiadau diogelwch ac amgylcheddol gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol. Mae'r gyfres o ddogfennau'n cael ei disgrifio fel achos diogelwch "generig": nid yw'n benodol i safle gan nad oes safle wedi cael ei ddewis ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol eto. Mae'n nodi sut gellir dylunio, adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn ddiogel gan gydymffurfio â'r canllawiau rheoleiddiol, a hynny mewn amrywiaeth o amgylcheddau daearegol*

[7] *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017*

[8] *Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017*

[9] *Deddf Safleoedd Niwclear 1965*

[10] *Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016*

**1.25.** Nod y ddogfen ymgynghori ydy casglu ynghyd y Gofynion y bydd yn rhaid i RWM gydymffurfio â nhw'n anochel yn ystod y Broses Leoli, boed hynny fel rhan o'i ymgysylltiad a'i ddeialog â chymunedau neu ei geisiadau i gael y cydsyniadau angenrheidiol ar gyfer adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Nid yw'n sefydlu unrhyw Ofynion newydd i'w rhoi ar waith gan RWM yn ystod y Broses Leoli. Nid yw'n dileu, yn ehangu, yn addasu nac yn creu unrhyw o'r Gofynion presennol, dim ond casglu ynghyd y Gofynion mewn ffordd sydd wedi'i dylunio i sicrhau bod y disgresiwn eang a roddir i RWM gan y fframwaith polisi perthnasol yn cael ei ddefnyddio mewn modd tryloyw a chyson drwy gydol y Broses Leoli.

**1.26.** Os bydd y Gofynion yn newid yn y dyfodol, er enghraifft ar ôl newid yn y fframwaith deddfwriaethol neu bolisi sy'n ymwneud â gwaredu daearegol a/neu'r Broses Leoli ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol, bydd yn rhaid dychwelyd at y ddogfen ymgynghori a'i diweddaru efallai er mwyn adlewyrchu'r newidiadau hynny'n iawn. Bydd RWM yn trafod unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ddogfen ymgynghori â chymunedau sy'n rhan o'r Broses Leoli ac yn cynnal rhagor o ymgynghoriadau os ydy hynny'n briodol. Bydd unrhyw ddiweddariadau i'r ddogfen ymgynghori yn cael eu cyhoeddi er mwyn sicrhau proses leoli agor a thryloyw.

## Rhychwant tiriogaethol

**1.27.** Mae rheoli gwastraff ymbelydrol yn fater datganoledig sy'n golygu bod gan bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig yn y DU gyfrifoldeb dros osod ei pholisi ei hun.

**1.28.** Dim ond Cymru sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori a'r ymgynghoriad.

**1.29.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan yn y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel ers 2001 ac mae ei pholisi presennol ar gyfer gweithredu gwaredu daearegol wedi'i nodi mewn dwy ddogfen: *Rheoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd*[11] a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: *Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Lleoli*[12].

**1.30.** Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar 'Gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol: Gweithio gyda chymunedau a allai fod yn fodlon cynnig lleoliad' rhwng 25 Ionawr a 20 Ebrill 2018.

**1.31.** Y polisi terfynol ydy: Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: *Gweithio gyda Chymunedau*. Mae'r polisi hwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer ymgysylltu cymunedol yng Nghymru a fydd yn adlewyrchu amgylchiadau penodol Cymru, ac mae hefyd yn gydnaws ag elfennau allweddol o raglen gwaredu daearegol Llywodraeth y DU.

**1.32.** Mae Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen ar y sail mai dim ond un Cyfleuster Gwaredu Daearegol fydd ei angen ar gyfer y cyflenwad gwaredu cyfan, ond cydnabyddir y bydd angen am fwy nag un safle efallai. Yn y ddogfen ymgynghori, cyfeirir at ddewis safle ar gyfer ymchwilio, adeiladu a gweithredu dan y ddaear, ond mae'n cael ei sylweddoli y bydd mwy nag un safle'n cael ei ddewis efallai, ee os nad oes craig addas sy'n ddigon mawr ar gyfer y cyflenwad gwaredu cyfan.

**1.33.** Gan fod rheoli gwastraff ymbelydrol yn fater datganoledig, mae'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi gwahanol sy'n bodoli yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cael ei esbonio ymhellach yn Atodiad A y ddogfen hon – Gweinyddiaethau Datganoledig.

*[11] Polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd WG23160*
*[12] Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Lleoli – Rhagfyr 2015*

# 2 Ymateb i'r Gofynion


**2.1.** Fel yr esbonnir yn Adran 1, bydd gwerthusiadau safleoedd RWM yn ymateb i'r Gofynion gan ddwy brif ffynhonnell. Mae'r rhain yn cael eu trafod ymhellach yn yr adrannau canlynol.

## Gofynion y Broses Leoli

**2.2.** Mae Gofynion y Broses Leoli yn deillio o bolisi'r Llywodraeth, yn arbennig y polisi Gweithio gyda Chymunedau sy'n nodi sut bydd RWM yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a phartïon a diddordeb a'r awdurdodau lleol sy'n cynrychioli'r cymunedau hynny i ddod o hyd i safle addas ar gyfer datblygu Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**2.3.** Gallai'r broses o ddewis safle ar gyfer cyfleuster gwaredu gymryd hyd at tua 20 mlynedd. Mae Ffigur 2 yn darparu trosolwg o'r Broses Leoli. Mae'n nodi'r prif weithgareddau a fydd yn dod at ei gilydd i sicrhau proses lwyddiannus a'r amserlenni disgwyliedig sy'n gysylltiedig â phob prif weithgaredd.

**Ffigur 2** Trosolwg o'r Broses Leoli




**2.4.** Mae'r Polisi Gweithio gyda Chymunedau yn esbonio bod trafodaethau ar leoliad arfaethedig ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn gallu cael eu dechrau gan unrhyw un neu unrhyw grŵp o bobl â diddordeb yn y Broses Leoli ac sy'n dymuno cynnig ardal i'w hystyried. Trafodaethau Cychwynnol ydy enw'r sgyrsiau hyn.

**2.5.** Ar ôl i'r partïon gyfnewid gwybodaeth yn y lle cyntaf a chytuno bod y cynnig yn deilwng o ystyriaeth bellach, rhaid i'r Parti/Partïon â Diddordeb ac RWM roi gwybod i bob awdurdod lleol perthnasol cyn cyhoeddi'r cynnig a dechrau deialog â phobl yn yr ardal leol.

**2.6.** Yng Nghymru, yr awdurdodau lleol perthnasol fydd yr awdurdodau unedol sy'n cynrychioli'r holl ardal dan ystyriaeth neu ran ohoni. Bydd y Parti â Diddordeb, RWM, cadeirydd annibynnol a hwylusydd annibynnol yn ffurfio Gweithgor. Nid oes rhaid cael aelodaeth awdurdod lleol ar y Gweithgor ond byddai'n well pe bai o leiaf un awdurdod lleol perthnasol yn aelod.

**2.7.** Bydd y Gweithgor yn nodi'r ardal ddaearyddol y bydd gan RWM hawl i chwilio ynddi am safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Dyma'r Ardal Chwilio. Bydd yr Ardal Chwilio'n deillio o'r ardal a gynigir i'w hystyried yn gyntaf gan y Parti â Diddordeb, a chaiff ei diffinio gan ddefnyddio ffiniau'r ardal cyngor cymuned. Yr "awdurdod(au) lleol perthnasol" ydy'r awdurdodau lleol sy'n cynrychioli'r Ardal Chwilio gyfan neu ran ohoni. Mae rhai rhannau o Gymru heb gyngor cymuned, ond maent yn rhan o ardal cyngor cymuned. Felly, bydd yr Ardal Chwilio yn cynnwys yr holl ardaloedd cyngor cymuned y bydd RWM yn gallu ystyried safleoedd posibl ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol ynddynt.

**2.8.** Bydd y Gweithgor yn dechrau casglu gwybodaeth am y bobl a'r sefydliadau yn yr ardal sy'n debygol o deimlo effaith neu o fod â diddordeb mewn Cyfleuster Gwaredu Daearegol gyda'r bwriad o ganfod aelodau ar gyfer Partneriaeth Gymunedol yn y dyfodol.

**2.9.** Bydd y Bartneriaeth Gymunedol hon yn cynnwys sefydliadau ac aelodau o'r gymuned, RWM a'r awdurdodau lleol perthnasol hynny sy'n cynrychioli'r ardaloedd cyngor cymuned yn yr Ardal Chwilio. Bydd yn gyfrwng i rannu gwybodaeth â'r gymuned ac i ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau sydd gan y gymuned am waredu daearegol, y broses leoli a sut gallan nhw, fel cymuned, elwa.

**2.10.** Dim ond os ydy'r awdurdod(au) lleol yn yr Ardal Chwilio yn cytuno i gymryd rhan y gellir ffurfio a pharhau i weithredu Partneriaeth Gymunedol. Os oes mwy nag un awdurdod lleol yn yr Ardal Chwilio, rhaid gwahodd pob un i ymuno. Os bydd awdurdod lleol perthnasol yn penderfynu peidio â bod yn aelod, ni fydd yr ardaloedd cyngor cymuned o fewn ei ffiniau'n rhan o Ardal Chwilio (neu, ar ôl ei diffinio'n nes ymlaen, Cymuned a Allai Gynnig Lleoliad).

**2.11.** Gall cymuned dynnu'n ôl o'r Broses Leoli ar unrhyw adeg tan ei bod wedi cynnal Prawf o Gefnogaeth Cyhoeddus (gweler isod); dyma'r Hawl Tynnu'n Ôl. Caiff unrhyw awdurdod lleol perthnasol ddirwyn y broses leoli i ben yn yr ardaloedd cyngor cymuned o fewn ei ffiniau, naill ai drwy adael y Bartneriaeth Gymunedol neu drwy alw Hawl Tynnu'n Ôl i rym. Gall yr awdurdod(au) lleol perthnasol naill ai benderfynu i dynnu'r gymuned yn ôl o'r broses ei hun neu geisio barn y gymuned ar a ddylid tynnu'n ôl o'r Broses Leoli ai peidio, ac os felly, trigolion yr Ardal Chwilio fyddai'n cymryd rhan (neu drigolion y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad).

**2.12.** Er mai'r awdurdod(au) lleol perthnasol biau'r gair olaf, dylai gynnwys aelodau eraill o'r Bartneriaeth Gymunedol mewn trafodaethau ynghylch a ydynt yn bwriadu tynnu'r gymuned yn ôl o'r broses ai peidio. Yn yr un modd, dylai'r aelodau eraill o'r Bartneriaeth Gymunedol allu gwneud argymhellion i'r awdurdod(au) lleol perthnasol ynghylch y Bartneriaeth Gymunedol yn galw'r Hawl Tynnu'n Ôl i rym.

**2.13.** Gall RWM dynnu'n ôl ar unrhyw adeg hefyd, er enghraifft os bydd yn penderfynu bod y Broses Leoli'n annhebygol o lwyddo mewn cymuned benodol.

**2.14.** Cyn gwneir penderfyniad i geisio caniatâd cynllunio, neu gymeradwyaeth reoleiddiol ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, rhaid i'r ***Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad*** gynnal ***Prawf o Gefnogaeth Gyhoeddus*** i ddangos ei bod yn fodlon cynnig lleoliad i gyfleuster gwaredu daearegol.


**2.15.** Bydd yr awdurdod lleol perthnasol, neu awdurdodau lle mae mwy nag un yn y Bartneriaeth Gymunedol, yn penderfynu a ddylid cynnal Prawf o Gefnogaeth Gyhoeddus er mwyn ceisio barn y gymuned ar gynnig lleoliad i gyfleuster gwaredu daearegol ac, os cynhelir un, pa bryd. Rhaid i awdurdod lleol perthnasol gytuno y gellir cynnal y Prawf o Gefnogaeth Gyhoeddus er mwyn cynnwys yr ardaloedd cyngor cymuned o fewn ei ffiniau yn y prawf.

**2.16.** Mae RWM wedi cynhyrchu Canllawiau Cymunedol[13] sy'n esbonio sut mae'n bwriadu gweithio mewn partneriaeth â chymunedau drwy gydol y Broses Leoli.

**2.17.** Yn Ffigur 3 rydym yn crynhoi sut mae RWM yn rhag-weld y bydd yn rhoi polisi'r Llywodraeth ar waith ac yn gyrru'r Broses Leoli yn ei blaen; caiff hyn ei drafod ymhellach yn Adran 4.

[13] *Community Guidance – How we will work with Communities (Wales)*

**Ffigur 3** Y Broses Leoli a Gwerthuso Safleoedd




## Gofynion Cyfreithiol

**2.18.** Drwy gydol y Broses Leoli ac at ddibenion adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol, bydd yn rhaid i RWM gydymffurfio â nifer o ofynion deddfwriaethol/rheoleiddiol yn anochel, gan gynnwys sicrhau nifer o gydsyniadau allweddol gan awdurdodau cynllunio a rheoleiddwyr amgylcheddol a niwclear annibynnol y DU. Mae'r prif Ofynion Cyfreithiol yn y cyd-destun hwn yn gysylltiedig â'r canlynol:

- **Cynllunio defnydd tir;** bydd angen cydsyniad cynllunio defnydd tir ar seilwaith gwaredu daearegol. Byddai'n rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd cynllunio i'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol[14].
- **Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol;** caiff datganiad amgylcheddol manwl ei gynhyrchu, wedi'i ategu gan asesiad ar lefel prosiect i'w gynnal gan RWM fel rhan o'i geisiadau am gydsyniad cynllunio defnydd tir;
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd;** asesiad manwl ar lefel prosiect i'w gynnal gan RWM, sy'n asesu effaith bosibl (os o gwbl) datblygiad arfaethedig y Cyfleuster Gwaredu Daearegol ar gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir;
- **Trwydded Safle Niwclear** ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol a roddir gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965;
- **Rheoliadau Diogelwch y Diwydiant Niwclear** sy'n mynnu bod cynlluniau diogelwch penodol yn cael eu cynhyrchu a'u cymeradwyo;
- **Trwydded(au) Amgylcheddol** sy'n rheoleiddio agweddau amgylcheddol penodol ar gyfleuster gwaredu daearegol, a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

**2.19.** Bydd y gwerthusiadau y bydd RWM yn eu cynnal yn ystod y Broses Leoli, gan ddefnyddio'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso a nodir yn y ddogfen ymgynghori, yn cael eu defnyddio i gasglu gwybodaeth y bydd angen amdani er mwyn bod yn sail i'r ceisiadau a fydd yn cael eu gwneud am y caniatâd cynllunio a'r cydsyniad rheoleiddiol allweddol. Dylid nodi nad oes gan reoleiddwyr niwclear ac amgylcheddol y DU rôl reoleiddio ffurfiol wrth ddewis safle ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Mae eu rôl reoleiddio'n dechrau ar ôl i safleoedd gael eu dewis am ragor o ymchwiliadau. Bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl ffurfiol newydd a fydd yn dechrau pan fydd safleoedd yn cael eu dewis ar gyfer ymchwiliadau tyllau turio dwfn. Bydd gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear rôl ffurfiol a fydd yn dechrau pan fydd safle'n cael ei ddewis ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Bydd y rheoleiddwyr yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ôl y gofyn er mwyn esbonio'r prosesau rheoleiddiol a'u rôl. Ni fyddant yn trwyddedu nac yn caniatáu Cyfleuster Gwaredu Daearegol oni bai y gellir dangos ei fod yn bodloni gofynion rheoleiddiol llym y DU o ran diogelu pobl a'r amgylchedd.

*[14] Yng Nghymru, yr awdurdod lleol perthnasol a fydd yn gartref i'r seilwaith ar yr wyneb sy'n ystyried materion cynllunio. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar newidiadau i'r broses o roi cydsyniad i seilwaith yng Nghymru. Cynigir y byddai tyllau turio ymchwilio dwfn a'r Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn cael eu cynnwys fel Prosiectau Seilwaith Cymru yn y broses hon.*

## Manyleb System Waredu RWM

**2.21.** Mae RWM eisoes wedi datblygu Achos Diogelwch System Waredu generig a Manyleb System Waredu ac mae'n eu cynnal. Maent yn seiliedig ar y prif Ofynion presennol sy'n berthnasol i reoli sefydliadol, dewis a gwerthuso safleoedd a dylunio, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol. O ganlyniad, mae'r Achos a'r Fanyleb wedi bod yn bwyntiau cyfeirio allweddol wrth i RWM ddatblygu'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso a nodir yn y ddogfen ymgynghori.

**2.22.** Mae'r Achos yn gyfres o ddogfennau sy'n cynnwys manyleb, dyluniadau ac asesiadau sy'n ystyried goblygiadau amgylcheddol a diogelwch gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol.

**2.23.** Mae'r Achos yn cael ei alw'n un 'generig' gan nad yw'n benodol i safle oherwydd nad oes safle wedi cael ei nodi ar gyfer adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol eto. Mae'n nodi sut gellid dylunio, adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn ddiogel gan gydymffurfio â'r Gofynion perthnasol, a hynny mewn amrywiaeth o amgylcheddau daearegol.

**2.24.** Mae'r Achos yn sail i'r broses barhaus o becynnu gwastraff i baratoi ar gyfer ei waredu mewn cyfleuster gwaredu daearegol yn y dyfodol.

**2.25.** Mae'r Fanyleb System Waredu, sy'n rhan o'r Achos Diogelwch System Waredu generig, yn disgrifio'r Gofynion a roddir ar y system waredu ac mae'n sail i waith dylunio ac asesu generig presennol RWM. Felly, mae'r Gofynion Cyfreithiol sylfaenol (sy'n berthnasol yng nghyd-destun beth sy'n gwneud safle'n un addas) wedi'u nodi yn y Fanyleb System Waredu mae RWM wedi'i chyhoeddi.

**2.26.** Ceir cytundeb yn rhyngwladol bod gwaredu daearegol yn ateb rheoli tymor hir diogel ar gyfer gwastraff uwch ei actifedd. Nodir hyn mewn dogfennau fel y Joint Convention on the Safety of Spent Fuel Management and on the Safety of Radioactive Waste Management ac yn nogfen Cyfres Safonau Diogelwch yr Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol, Disposal of Radioactive Waste.

**2.27.** Nid yw cyfres diogelwch yr Asiantaeth yn rhan uniongyrchol o drefniadau rheoleiddio'r DU, ond mae Llywodraeth y DU a rheoleiddwyr niwclear ac amgylcheddol annibynnol y DU yn eu defnyddio i ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu ac adolygu eu canllawiau a'u gofynion. Felly, mae RWM wedi penderfynu trin gofynion diogelwch yr Asiantaeth mewn cysylltiad â gwastraff ymbelydrol (SSR-5) fel gofynion yn ein Manyleb System Waredu oherwydd byddant yn llywio asesiad RWM o addasrwydd ardaloedd a safleoedd daearyddol yn anochel – ond yn achos unrhyw wrthdaro rhwng deddfwriaeth y DU a safonau rhyngwladol, deddfwriaeth y DU fydd yn cael blaenoriaeth.

**2.28.** Nid oes un safle penodol yn dylanwadu ar y gofynion a nodir yn y Fanyleb System Waredu, ac maent yn berthnasol i'r ystyriaeth gyffredinol o ardaloedd neu safleoedd y bydd RWM yn eu gwerthuso. O ganlyniad, rhaid cydymffurfio â'r gofynion lefel uchel a nodir yn Rhan A o'r Fanyleb ni waeth pa ardal neu safle sy'n cael ei werthuso, felly os na ellir bodloni'r gofynion mae'n annhebygol y bydd yr ardal neu'r safle'n addas ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

### Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:

**Ar wahân i'r Broses Leoli a r Gofynion Cyfreithiol a nodwyd, a oes unrhyw ffynonellau eraill o Ofynion lefel uchel y dylid eu hadlewyrchu yn y Gwerthusiad Safleoedd yn eich barn chi, ac os oes, pam hynny?**

# 3 Gwerthuso safleoedd – Ffactorau ac Ystyriaethau

## Pwrpas y Ddogfen Ymgynghori

**3.1.** Mae'r ddogfen ymgynghori, drwy ddefnyddio ei Ffactorau Lleoli ac Ystyriaethau Gwerthuso, wedi'i dylunio i alluogi'r canlynol:

- dull cyson a thryloyw o werthuso ardaloedd a safleoedd posibl;
- lefel briodol o werthuso ar gyfer pob ardal a safle posibl yn erbyn y Gofynion presennol a pherthnasol, ac i gefnogi:
- ceisiadau RWM am ganiatâd yn y dyfodol, gan gynnwys cydsyniadau cynllunio defnydd tir, trwyddedau amgylcheddol a thrwydded safle niwclear.

## Strwythur y Ddogfen Ymgynghori

**3.2.** Mae'r ddogfen ymgynghori wedi cael ei dylunio i grynhoi, mewn termau syml, y mathau eang o faterion y bydd yn rhaid i RWM eu hystyried wrth weithio mewn partneriaeth â'r gymuned yn ystod y Broses Leoli er mwyn cydymffurfio â'r holl Ofynion perthnasol, a galluogi RWM i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer gwneud ceisiadau am y prif gydsyniadau.

**3.3.** Mae'r ddogfen ymgynghori yn mynd ati i sicrhau hyn drwy rannu'r Gofynion yn chwe "Ffactor Lleoli" eang. Mae'r chwe Ffactor Lleoli hyn wedi'u dylunio i adlewyrchu'r hyn mae RWM yn ei gredu, ar sail prosiectau Cyfleuster Gwaredu Daearegol rhyngwladol a phrosiectau seilwaith yn y DU sy'n debyg o ran eu maint a'u cymhlethdod, sy'n debygol o fod y prif faterion i'w trafod â chymunedau sy'n cymryd rhan yn y Broses Leoli a rheoleiddwyr niwclear ac amgylcheddol annibynnol y DU.

## Ffactorau Lleoli

**3.4.** Mae'r chwe Ffactor Lleoli mae RWM wedi'u datblygu'n ymwneud â'r pynciau eang canlynol: Diogelwch, y Gymuned, yr Amgylchedd, Ymarferoldeb Peirianyddol, Trafnidiaeth a Chost. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Nhabl 1 isod.

**3.5.** Er mwyn llywio ac ychwanegu eglurder at drafodaethau RWM â chymunedau a'u gwerthusiadau o safleoedd, mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn rhannu'r chwe Ffactor Lleoli ymhellach yn gyfres o "Ystyriaethau Gwerthuso" sy'n dod o dan bob Ffactor Lleoli. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Nhabl 2 isod.

**3.6.** Ni ellir ystyried y Ffactorau Lleoli neu'r Ystyriaethau Gwerthuso ar eu pen eu hunain bob amser ac felly maent wedi'u dylunio i gael eu defnyddio'n gyfannol drwy gydol y Broses Leoli i alluogi RWM i ffurfio barn ansoddol, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ac sydd ganddynt, o botensial ardal arfaethedig i gynnig lleoliad i gyfleuster gwaredu daearegol.

**3.7.** I'r graddau mae unrhyw ddyblygiad neu orgyffwrdd ymysg y Ffactorau Lleoli, nid yw'r ddogfen ymgynghori'n mynnu bod y Gofynion yn cael eu cymhwyso na'u dehongli'n wahanol nac mewn unrhyw ffordd benodol. Mae'r Ffactorau Lleoli wedi'u dylunio i rannu'r Gofynion yn feysydd eang i alluogi dull cyson a thryloyw o werthuso ardaloedd a safleoedd posibl.

**Tabl 1** Ffactorau Lleoli

| Gofynion Cyfreithiol a Gofynion Lleoli | Ffactorau Lleoli |
|---|---|
| | **Diogelwch** – nodweddion yr amgylchedd ar yr wyneb ac amgylchedd daearegol o dan yr wyneb mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol a goblygiadau diogelwch adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y lleoliad hwnnw, a'r goblygiadau yn ystod y cyfnod ar ôl ei gau. |
| | **Y Gymuned** – goblygiadau economaidd-gymdeithasol posibl adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol, gan gynnwys cyfleoedd posibl i wella lles y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad. |
| | **Yr Amgylchedd** – nodweddion yr amgylchedd ar yr wyneb ac amgylchedd daearegol o dan yr wyneb mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol a goblygiadau amgylcheddol adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y lleoliad hwnnw a'r gallu i liniaru'r effeithiau posibl hynny. |
| | **Ymarferoldeb Peirianyddol** – nodweddion yr amgylchedd ar yr wyneb ac amgylchedd daearegol o dan yr wyneb mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol, a pha mor ymarferol ydy adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y lleoliad hwnnw. |
| | **Trafnidiaeth** – goblygiadau posibl adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol i rwydweithiau trafnidiaeth lleol a chenedlaethol, gan gynnwys unrhyw welliannau mae angen eu gwneud i rwydweithiau lleol yn y lleoliad hwnnw efallai, a'r gallu i liniaru'r effeithiau posibl hynny. |
| | **Cost** – nodweddion yr amgylchedd ar yr wyneb ac amgylchedd daearegol o dan yr wyneb mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol, a goblygiadau'r nodweddion hynny o ran y gost bosibl (gan gynnwys asesiad gwerth am arian) o osod cyfleuster yn y lleoliad hwnnw. |

**Cwestiwn 2 yr Ymgynghoriad:**
**Ydych chi'n cytuno â r Ffactorau Lleoli yr ydym wedi'u nodi?**
**A oes unrhyw Ffactorau Lleoli eraill y dylid eu cynnwys, ac os oes, pam hynny?**

### Ystyriaethau Gwerthuso

**3.8.** Mae'r chwe Ffactor Lleoli'n darparu'r meysydd eang i'w gwerthuso – dyma'r penawdau pwnc cyffredinol a fydd yn cael eu defnyddio i helpu i gyfeirio a llywio gwerthusiadau safleoedd RWM a'i drafodaethau â chymunedau.

**3.9.** Er mwyn helpu i roi rhagor o ffocws i'r gwerthusiadau a'r trafodaethau hynny, yn enwedig pan fydd y gwerthusiadau'n mynd yn fanylach yn nes ymlaen yn y Broses Leoli, mae RWM wedi defnyddio'r Gofynion i nodi nifer o Ystyriaethau Gwerthuso sy'n sail i bob un o'r Ffactorau Lleoli. At ddibenion cysondeb, mae'r Ystyriaethau Gwerthuso'n cyd-fynd yn agos â'r Fanyleb System Waredu.

**3.10.** Mae Tabl 2 i Dabl 7 yn nodi'r Ystyriaethau Gwerthuso mae RWM wedi'u datblygu ar gyfer pob un o'r chwe Ffactor Lleoli. Mae'r troednodiadau yn y tablau hyn a ddisgrifir fel "Tabl x" yn cyfeirio at Dablau ym Manyleb System Waredu RWM.

**Tabl 2** Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer y Ffactor Lleoli – Diogelwch

| **Nodweddion yr amgylchedd ar yr wyneb ac amgylchedd daearegol o dan yr wyneb mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol a goblygiadau diogelwch adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y lleoliad hwnnw, a'r goblygiadau yn ystod y cyfnod ar ôl ei gau.** |
|---|
| **Gofynion yr Achos Diogelwch**[15] – Y gallu i ymateb i'r Gofynion Rheoli Lefel Uchel ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol i wneud yn siŵr bod modd ei ddylunio, ei adeiladu, ei weithredu a'i gau yn unol â'r Gofynion hynny. |
| **Diogelwch Adeiladu**[16] – Y gallu i adeiladu Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn unol â'r holl Ofynion sy'n ymwneud â diogelwch (hy yn unol â dyluniad a ddisgrifir mewn achos diogelwch priodol). |
| **Diogelwch Gweithredu**[17] – Y gallu i weithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn unol â'r holl Ofynion sy'n ymwneud â diogelwch. |
| **Diogelwch ar ôl Cau**[18] – Y gallu i gau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn unol â'r holl Ofynion sy'n ymwneud â diogelwch (hy potensial safle i gynnwys ac ynysu'r gwastraff ymbelydrol oddi wrth bobl a'r biosffer am y cyfnod mae'n ei gymryd i'r ymbelydredd leihau'n naturiol). |

*[15] Tabl 2 y Fanyleb System Waredu*
*[16] Tabl 3 y Fanyleb System Waredu*
*[17] Tabl 5 y Fanyleb System Waredu*
*[18] Tablau 2, 6 a 10 y Fanyleb System Waredu*

Tabl 3 Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer y Ffactor Lleoli – Y Gymuned

| |
|---|
| **Goblygiadau economaidd-gymdeithasol posibl adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol, gan gynnwys cyfleoedd posibl i wella lles y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad.** |
| **Lles Cymunedol**[19] – Bydd lles y gymuned berthnasol yn cael ei ystyried yn unol â'r holl Ofynion sy'n ymwneud ag effeithiau economaidd-gymdeithasol, iechyd a chydraddoldeb posibl[20], er enghraifft.<br><br>Bydd effeithiau cronnus prosiectau seilwaith posibl o fewn rhanbarth ac effeithiau posibl llygredd a sŵn mewn cysylltiad ag unrhyw effeithiau niweidiol ar grwpiau cydraddoldeb yn cael eu hystyried. |
| **Gweledigaeth y Gymuned sy'n Cynnig Lleoliad**[21] – Ystyried a ellir cysoni datblygiad arfaethedig y seilwaith gwaredu daearegol ag amcanion neu weledigaeth y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad. |

*[19] Tabl 13 y Fanyleb System Waredu*

*[20] Yn y cyd-destun hwn, mae'n bosibl y bydd RWM yn ystyried materion megis: cyflogaeth, gwerth eiddo, datblygiad economaidd, twristiaeth, yr economi amaethyddol, gwasanaethau cymdeithasol, seilwaith presennol, sefydlogrwydd cymdeithasol, cydlyniant cymunedol, tai a llety, goblygiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol datblygu Cyfleuster Gwaredu Daearegol, y potensial i wella lles cymunedol, gallu'r gymuned arfaethedig sy'n cynnig lleoliad i gynnal y prosiect fel a oes gweithlu addas ar gael a'r manteision ehangach a thymor hwy posibl i'r economi, capasiti a'r angen am gyfleusterau addysgol a chyfleusterau i ymwelwyr, effaith y cyfleuster newydd arfaethedig ar grwpiau cydraddoldeb, a'r effaith ar wasanaethau lleol.*

*[21] Tabl 13 y Fanyleb System Waredu*

**Tabl 4** Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer y Ffactor Lleoli – Yr Amgylchedd

| |
|---|
| **Nodweddion yr amgylchedd ar yr wyneb ac amgylchedd daearegol o dan yr wyneb mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol a goblygiadau amgylcheddol adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y lleoliad hwnnw a'r gallu i liniaru'r effeithiau posibl hynny.** |
| **Effaith Amgylcheddol**[22] – Bydd effaith bosibl seilwaith gwaredu daearegol arfaethedig ar yr amgylchedd yn cael ei hystyried yn unol â'r gofynion sy'n ymwneud ag effeithiau amgylcheddol[23]. |
| **Cynefinoedd a Rhywogaethau a Warchodir**[24] – Bydd effaith bosibl y seilwaith gwaredu daearegol arfaethedig ar safleoedd cadwraeth dynodedig yn cael ei hystyried yn unol â'r Gofynion sy'n ymwneud â chynefinoedd a rhywogaethau a warchodir. |

[22] *Tabl 7 y Fanyleb System Waredu*
[23] *Bydd RWM yn ystyried materion fel ansawdd yr aer, sŵn, ffactorau hinsoddol gan gynnwys newid yn yr hinsawdd ac addasu i'r newid hwnnw, yr amgylchedd hanesyddol, perygl o lifogydd a newid arfordirol, iechyd pobl, effeithiau tirwedd a gweledol, defnydd tir, rheoli gwastraff, ansawdd dŵr (gan gynnwys dŵr daear) a ffynonellau niwsans posibl.*
[24] *Tabl 7 y Fanyleb System Waredu*

**Tabl 5** Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer y Ffactor Lleoli – Ymarferoldeb Peirianyddol

| **Nodweddion yr amgylchedd ar yr wyneb ac amgylchedd daearegol o dan yr wyneb mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol, a pha mor ymarferol ydy adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y lleoliad hwnnw.** |
|---|
| **Dyluniad Cynaliadwy**[25] – Y gallu i ddefnyddio 'dylunio da' er mwyn cynhyrchu seilwaith cynaliadwy. |
| **Adeiladwyedd**[26] – Y gallu i ddylunio, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn unol â'r Gofynion. |
| **Diogelwch**[27] – Y gallu i ddylunio, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn unol â'r holl Ofynion sy'n ymwneud â diogelwch. |
| **Mesurau Diogelu**[28] – Y gallu i ddylunio, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn unol â'r holl Ofynion sy'n ymwneud â mesurau diogelu niwclear. |
| **Cyflyru a Phecynnu Gwastraff**[29] – Ystyried a oes gan ardal neu safle posibl unrhyw nodweddion arbennig a allai rwystro gwastraff sydd wedi cael ei becynnu'n barod rhag cael ei dderbyn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried a oes gan ardal neu safle posibl unrhyw nodweddion arbennig sy'n debygol o olygu bod angen gwneud newidiadau sylweddol i'r cyngor presennol ynghylch pecynnu gwastraff. |
| **Cyflenwad Gwaredu**[30] – Ystyried a oes digon o graig addas ar gael ar ddyfnder storio i gynnig lleoliad i seilwaith Cyfleuster Gwaredu Daearegol ac i reoli'r cyflenwad gwaredu y cytunir arno, a pha mor hyblyg gallai'r safle posibl fod o ran newidiadau posibl ym maint y gwastraff. |
| **Adferadwyedd**[31] – Ystyried a ellid dylunio, adeiladu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn unol â'r Gofynion, gan gydnabod y gellid adfer gwastraff yn ystod y cam gweithredu os byddai rheswm da dros wneud hynny. |

[25] *Tablau 7 a 10 y Fanyleb System Waredu*
[26] *Tablau 3, 4 a 5 y Fanyleb System Waredu*
[27] *Tabl 8 y Fanyleb System Waredu*
[28] *Tabl 9 y Fanyleb System Waredu*
[29] *Adran 2.2 y Fanyleb System Waredu Generig, Rhan A: Gofynion Lefel Uchel, Rhagfyr 2016*
[30] *Tabl 1 y Fanyleb System Waredu*
[31] *Tabl 14 y Fanyleb System Waredu*

**Tabl 6** Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer y Ffactor Lleoli – Trafnidiaeth

| |
|---|
| **Goblygiadau posibl adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol i rwydweithiau trafnidiaeth lleol a chenedlaethol, gan gynnwys unrhyw welliannau mae angen eu gwneud i rwydweithiau lleol efallai, a'r gallu i liniaru'r effeithiau posibl hynny.** |
| **Diogelwch Trafnidiaeth**[32] – Y gallu i ddylunio, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn unol â'r holl Ofynion sy'n ymwneud â diogelwch trafnidiaeth. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y Gofynion sy'n ymwneud â diogelwch trafnidiaeth mewn cysylltiad â deunydd ymbelydrol (sy'n cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear) a deunydd nad yw'n ymbelydrol. |
| **Diogelwch Trafnidiaeth**[33] – Y gallu i ddylunio a gweithredu System Drafnidiaeth Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn unol â'r holl Ofynion sy'n ymwneud â diogelwch. |
| **Effaith Trafnidiaeth**[34] – Bydd effaith bosibl seilwaith trafnidiaeth arfaethedig a'r symudiadau traffig cysylltiedig yn cael ei hystyried yn unol â'r Gofynion sy'n ymwneud ag effaith trafnidiaeth, gan gynnwys y gallu i osgoi, lliniaru neu wneud iawn am yr effeithiau hynny. |

[32] *Tabl 4 y Fanyleb System Waredu*
[33] *Tabl 8 y Fanyleb System Waredu*
[34] *Tabl 7 y Fanyleb System Waredu*

**Tabl 7** Ystyriaethau Gwerthuso ar gyfer y Ffactor Lleoli – Cost

| |
|---|
| **Nodweddion yr amgylchedd ar yr wyneb ac amgylchedd daearegol o dan yr wyneb mewn unrhyw leoliad daearyddol penodol, a goblygiadau'r nodweddion hynny o ran y gost bosibl (gan gynnwys asesiad gwerth am arian) o osod cyfleuster yn y lleoliad hwnnw.** |
| **Costau Adeiladu**[35] – Bydd costau posibl nodweddu ac adeiladu Cyfleuster Gwaredu Daearegol a'i system drafnidiaeth gysylltiedig mewn lleoliad daearyddol penodol yn cael eu hystyried yn unol â'r Gofynion sy'n ymwneud â gwariant cyhoeddus a gwerth am arian, er enghraifft. |
| **Costau Oes**[36] – Bydd costau posibl gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol a'i system drafnidiaeth gysylltiedig mewn lleoliad daearyddol penodol yn cael eu hystyried yn unol â'r Gofynion sy'n ymwneud â gwariant cyhoeddus a gwerth am arian, er enghraifft. |
| **Amserlen Derbyn Gwastraff**[37] – Y gallu i gwrdd ag amserlen briodol ar gyfer derbyn gwastraff drwy gydol oes y rhaglen. |

[35] *Tabl 11 y Fanyleb System Waredu*
[36] *Tabl 11 y Fanyleb System Waredu*
[37] *Tabl 12 y Fanyleb System Waredu*

**3.11.** Cydnabyddir y bydd rhywfaint o orgyffwrdd a rhyngweithio rhwng y chwe Ffactor Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso, a bydd yn rhaid deall ac ystyried hyn er mwyn peidio â gorbwysleisio agweddau ar y gwerthusiad. Er enghraifft, cydnabyddir y gallai gwella'r rhwydwaith trafnidiaeth arwain at effeithiau amgylcheddol a goblygiadau cost y mae'n rhaid eu hystyried yn ogystal ag effeithiau neu fanteision i'r gymuned.

**3.12.** Bydd ein gwerthusiadau bob amser yn ystyried a ellir cyflenwi Cyfleuster Gwaredu Daearegol o fewn cyfyngiadau daearyddol yr ardal(oedd) a'r safle(oedd) dan sylw. Gallai'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu i werthuso ardaloedd a safleoedd yn erbyn y Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso nodi rhesymau i RWM dynnu'n ôl o'r Broses Leoli yn yr ardal dan sylw, hyd yn oed os ydy'r gymuned yn fodlon bwrw ymlaen.

**3.13.** Ni fydd y dull o werthuso safleoedd a fydd yn cael ei ddefnyddio yn cynnwys sgorio'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso. Bydd yn broses ansoddol ac iteraidd, ac yn seiliedig ar dystiolaeth.

**3.14.** Bydd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu dan y chwe Ffactor Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso sylfaenol perthnasol yn darparu'r strwythur cyffredinol ar gyfer ein gwerthusiadau o safleoedd ac, ar yr adeg berthnasol, yr argymhellion lleoli y byddwn yn eu gwneud i'r Llywodraeth. Caiff y wybodaeth sy'n cael ei chasglu ei defnyddio hefyd i gefnogi, ar yr adeg berthnasol, ceisiadau RWM am y caniatâd, y cydsyniadau a'r trwyddedau sy'n angenrheidiol ar gyfer adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

### Cwestiwn 3 yr Ymgynghoriad:

**Ydych chi'n cytuno â r Ystyriaethau Gwerthuso yr ydym wedi'u nodi?**
**A oes unrhyw Ystyriaethau Gwerthuso eraill y dylid eu cynnwys, ac os oes, pam hynny?**

### Cwestiwn 4 yr Ymgynghoriad:

**Ydych chi'n meddwl y dylem ystyried rhywbeth arall yn ein gwerthusiadau o safleoedd, ac os ydych chi, pam hynny?**

# 4 Rhoi Polisi'r Llywodraeth Ar Waith


## Gyrru'r Broses Leoli yn ei Blaen

**4.1.** Fel sy'n cael ei drafod yn Adran 2 a'i grynhoi yn Ffigur 3, bydd RWM yn gweithio mewn partneriaeth â Phartïon â Diddordeb, cymunedau a'r awdurdodau lleol sy'n cynrychioli'r cymunedau hynny i roi polisi'r Llywodraeth ar waith er mwyn nodi safle addas ar gyfer datblygu Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**4.2.** Yn ystod y cyfnod hwn, bydd RWM yn cynnal gwerthusiadau mwy a mwy manwl wrth gael mwy a mwy o wybodaeth a data am yr ardal berthnasol.

**4.3.** Cydnabyddir y bydd y lefel o wybodaeth sydd ar gael yn amrywio rhwng y gwahanol ardaloedd a safleoedd sy'n cael eu gwerthuso. Ar y cyfan, credir y bydd mwy a mwy o wybodaeth berthnasol ar gael wrth i'r ardaloedd a'r safleoedd posibl symud ymlaen drwy'r Broses Leoli. Mae Ffigur 4 yn dangos trosolwg o sut bydd mwy a mwy o wybodaeth berthnasol am ardal ddaearyddol benodol ar gael dros amser.

**Ffigur 4** Casglu gwybodaeth yn ystod y Broses Leoli




**4.4.** O ganlyniad, bydd ein gwerthusiadau yn gynnar yn y Broses Leoli o reidrwydd yn cydnabod lefelau uwch o ansicrwydd a bydd yr elfennau ansicr hynny'n cael eu defnyddio i ddylanwadu ar y math o waith ac astudiaethau angenrheidiol yn y dyfodol, a'u hyd a lled. Yn nes ymlaen yn y Broses Leoli, wrth i'r lefelau o wybodaeth a data gynyddu, bydd RWM mewn lle i gynnal gwerthusiadau mwy a mwy manwl a darparu argymhellion lleoli cadarn i'r Llywodraeth. Bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r argymhellion hyn i ddylanwadu ar y penderfyniad ynghylch pa ardaloedd neu safleoedd y dylid eu dewis ar gyfer y camau Nodweddu Safleoedd, ymchwilio dan y ddaear, ac adeiladu a gweithredu.

**4.5.** Hyd nes dechrau'r cam Nodweddu Safleoedd, disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n cael ei gwerthuso gan RWM (arolygon ar wyneb y tir sydd newydd gael eu comisiynu ac sydd ar waith) yn canolbwyntio ar y safleoedd ar wyneb y tir. Bydd y wybodaeth am yr is-wyneb wedi'i chyfyngu i wybodaeth ddesg sy'n bodoli eisoes, fel y wybodaeth a ddarperir drwy Sgrinio Daearegol Cenedlaethol neu arolygon geoffisegol anymwthiol a allai gael eu comisiynu.

**4.6.** Rydym yn rhag-weld y bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth newydd am yr is-wyneb a ddaw o dechnegau, fel arolygon seismig, tyllau turio bas a dwfn, profi tyllau a samplo ac ati, yn cael ei chynhyrchu yn ystod y gwaith Nodweddu Safleoedd byddwn yn ei wneud. Ar y pwynt hwn bydd y gwerthusiadau'n mynd yn fwy manwl a chymhleth o lawer gyda llawer iawn mwy o wybodaeth ar gael, gan gynnwys drwy'r asesiadau diogelwch penodol i safle y bydd RWM yn eu cynnal.

**4.7.** Mae gweddill yr adran hon yn esbonio, ar lefel uchel, sut mae RWM yn rhag-weld y bydd yn rhoi'r polisi Gweithio gyda Chymunedau ar waith ac yn gyrru'r Broses Leoli yn ei blaen.

### Trafodaethau Cychwynnol

**4.8.** Mae'r gwerthusiadau cynnar yn debygol o ganolbwyntio ar ddiogelwch, gan ddefnyddio gwybodaeth Sgrinio Daearegol Cenedlaethol i lywio'r trafodaethau am y posibilrwydd o ddod o hyd i safle addas yn yr ardal dan sylw. Ochr yn ochr â hyn bydd RWM yn ystyried, ar lefel uchel iawn, y wybodaeth sydd ar gael dan bob un o'r Ffactorau Lleoli.

**4.9.** Ar y cam hwn yn y gwerthusiadau, dim ond y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd fydd RWM yn ei defnyddio i ddeall a allai'r ardal fod yn addas i gynnig lleoliad i gyfleuster gwaredu daearegol.

**4.10.** Os ydy'r ardal sy'n cael ei hawgrymu gan y Parti â Diddordeb yn un fach, bydd angen i'r gwerthusiadau a wneir yn ystod y trafodaethau cychwynnol ymestyn y tu hwnt i'r ardal hon efallai, er mwyn i RWM ffurfio barn wybodus ar yr amodau daearegol oddi amgylch.

### Gweithgor

**4.11.** Bydd RWM yn casglu amrywiaeth o wybodaeth i ddeall cymeriad a nodweddion nodedig yr ardal leol berthnasol ynghyd ag unrhyw faterion lleol, ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan y gymuned.

**4.12.** Fel rhan o'r Gweithgor, bydd RWM yn cefnogi'r gwaith o nodi Ardal Chwilio yn unol â'r polisi Gweithio gyda Chymunedau.

**4.13.** Bydd RWM hefyd yn esbonio'r prif fylchau yn y wybodaeth a fydd yn bodoli'n anochel yn y cam cynnar hwn, a fydd yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar raglen waith yn y dyfodol y bydd yn rhaid i'r Bartneriaeth Gymunedol gytuno arni.

### Partneriaeth Gymunedol – Ymchwiliadau Anymwthiol

**4.14.** Bydd arolygon yn cael eu comisiynu am y tro cyntaf yn y Broses Leoli a bydd RWM yn dechrau casglu gwybodaeth newydd am yr Ardal Chwilio. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd arolygon ecoleg, trafnidiaeth, sŵn, ansawdd yr aer ac ati yn cael eu comisiynu.

**4.15.** Bydd y gwerthusiadau ar y pwynt hwn yn y Broses Leoli yn dechrau bod yn fanylach o reidrwydd, gan ddefnyddio'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso, ond byddant yn dal yn rhoi cryn sylw i nodweddion yr wyneb yn yr Ardal Chwilio.

**4.16.** Os ydy RWM yn credu ei fod yn fuddiol ac yn angenrheidiol ar y pwynt hwn, caiff benderfynu gwneud gwaith arolygu geoffisegol anymwthiol er mwyn helpu i ddeall yr ardal.

**4.17.** Bydd llawer o'r wybodaeth sy'n cael ei chynhyrchu yn ystod y cam hwn hefyd yn cael ei defnyddio i gefnogi ceisiadau cynllunio defnydd tir a cheisiadau am drwydded amgylcheddol ar gyfer tyllau turio, os caiff safle ei argymell i symud ymlaen i'r cam Nodweddu Safleoedd.

**4.18.** Efallai y bydd yn rhaid cynnal asesiad cymharol os oes nifer o gymunedau yn dal yn rhan weithredol o'r broses. Bydd argymhelliad yn cael ei wneud i'r Llywodraeth ar y safle neu'r safleoedd i'w nodweddu – mae hyn yn golygu ymchwiliadau tyllau turio dwfn. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn Adran 5.

## Partneriaeth Gymunedol - Adeiladu ac Ymchwiliadau Tyllau Turio Dwfn

**4.19.** Bydd yn rhaid i RWM wneud cais am gydsyniadau cynllunio defnydd tir a thrwydded(au) amgylcheddol i gynnal ymchwiliadau tyllau turio dwfn. Bydd y wybodaeth sydd wedi’i chasglu hyd at y pwynt hwn, wedi’i llywio gan y Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso, yn cael ei defnyddio at ddibenion RWM yn gwneud y ceisiadau perthnasol am ganiatâd cynllunio a thrwydded(au) amgylcheddol.

**4.20.** Bydd yr ymchwiliadau hyn yn profi’r amodau daearegol mewn safle(oedd) posibl i asesu a fyddai’n bosibl dylunio, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn ddiogel ac yn unol â’r Gofynion.

**4.21.** Bydd RWM yn dechrau cynhyrchu’r rhan fwyaf o’r wybodaeth newydd am yr is-wyneb. Ar y pwynt hwn bydd y gwerthusiadau’n mynd yn fwy manwl a chymhleth o lawer gyda llawer iawn mwy o wybodaeth ar gael, gan gynnwys yr asesiadau diogelwch penodol i safle y bydd RWM yn eu cynnal.

**4.22.** Pan fydd digon o wybodaeth ar gael, bydd Cymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn cael ei nodi. Fel y nodir yn y polisi Gweithio gyda Chymunedau, bydd y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad yn cynnwys yr holl ardaloedd cyngor cymuned y mae’r canlynol wedi’u lleoli ynddynt:

- elfennau ar yr wyneb ac o dan yr wyneb arfaethedig Cyfleuster Gwaredu Daearegol;
- unrhyw ddatblygiad cysylltiedig sy’n berthnasol i'r Cyfleuster Gwaredu Daearegol ac unrhyw dir sydd ei angen i liniaru effeithiau;
- cysylltiadau/llwybrau trafnidiaeth o safle'r Cyfleuster Gwaredu Daearegol i’r porth, y pen rheilffordd neu’r prif rwydwaith ffyrdd agosaf (hy hyd at ble mae isffyrdd yn cwrdd â’r ffyrdd A agosaf);
- effeithiau ffisegol uniongyrchol sy’n gysylltiedig ag ymchwiliadau dan y ddaear, ac adeiladu a gweithredu'r Cyfleuster Gwaredu Daearegol (a nodir drwy waith asesu effeithiau amgylcheddol a wneir i ategu ymgysylltiad RWM â chymunedau a’i geisiadau am ganiatâd cynllunio).

**4.23.** Yn seiliedig ar y wybodaeth sy’n cael ei chasglu drwy’r ymchwiliadau tyllau turio dwfn a'r trafodaethau parhaus â’r Bartneriaeth Gymunedol, bydd RWM yn gwerthuso’r ardal ddaearyddol sy’n cynnwys y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad a'i addasrwydd posibl i gynnig llety i gyfleuster gwaredu daearegol.

**4.24.** Bydd yn rhaid cynnal Prawf o Gefnogaeth Gyhoeddus i gadarnhau a ydy’r gymuned berthnasol yn fodlon cynnig lleoliad i gyfleuster gwaredu daearegol.

**4.25.** Yn dibynnu ar ganlyniad y Prawf, bydd RWM yn paratoi argymhelliad i'r Llywodraeth o ran pa safle i'w ddewis ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**4.26.** Ar yr adeg briodol, bydd RWM yn defnyddio'r wybodaeth sydd wedi’i chasglu i lywio ei geisiadau ar gyfer y caniatâd cynllunio, y trwyddedau amgylcheddol a'r drwydded safle niwclear sydd eu hangen ar gyfer adeiladu, gweithredu ac, yn y pen draw, cau Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

# 5 Asesiadau Cymharol

**5.1.** O dro i dro mae'n bosibl y bydd angen am asesiadau cymharol i ddewis o blith nifer o ardaloedd neu safleoedd sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd i symud ymlaen drwy'r Broses Leoli.

**5.2.** Bydd dull RWM o drin asesiadau cymharol, os bydd angen amdano, yn seiliedig ar ddull agored a thryloyw sy'n seiliedig ar ystyriaeth gyfannol o'r Gofynion drwy'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso.

**5.3.** Wrth gynnal asesiadau cymharol, byddwn yn ystyried cyfraniad y gymuned hefyd.

**5.4.** Bydd RWM yn cynnal gwerthusiadau ansoddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael am sut mae'r safleoedd posibl sy'n cael eu gwerthuso yn cymharu â'i gilydd. Yn unol â'n dull o werthuso, ni fydd hyn yn cynnwys sgorio'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso sydd wedi cael eu hystyried.

# 6 Goruchwylio a Chraffu

6.1. Mae iechyd a diogelwch gweithwyr RWM, contractwyr a'r cyhoedd, diogelu'r amgylchedd, a diogelu ein hasedau o'r pwys pennaf ym mhopeth rydym yn ei wneud. Mae cyrraedd safonau uchel yn y meysydd hyn yn hollbwysig i wireddu ein gweledigaeth a'n cenhadaeth.

6.2. Mae ein nodau yn syml:

- dim damweiniau;
- dim niwed i iechyd ein staff neu bobl eraill mae ein gwaith yn effeithio arnynt;
- dim difrod i'r amgylchedd;
- dim colled, dwyn na difrod o ran ein hasedau, gan gynnwys gwybodaeth; a
- dim torri rheoliadau.

6.3. Mae RWM wedi ymrwymo i gyrraedd safonau uchel o ran perfformiad a chyflawni ein hymrwymiadau i gwsmeriaid a rhanddeiliaid yn gyson. Er mwyn cyrraedd y safonau sy'n hollbwysig o ran gwireddu ein gweledigaeth a'n cenhadaeth, mae RWM yn cynnal system reoli integredig sy'n gynnwys defnyddio goruchwyliaeth annibynnol ar y rhaglen, er mwyn cefnogi gwella a dysgu.

6.4. Caiff sicrwydd ynghylch y gwerthusiadau a gynhelir yn y ddogfen ymgynghori ei ddarparu gan dîm goruchwylio mewnol RWM.

6.5. Caiff RWM ddefnyddio rhagor o sicrwydd a chyngor annibynnol (ee Panel Cynghori RWM ac adolygiad cymheiriaid gan gynrychiolwyr o sefydliadau rheoli gwastraff oddi tramor) fel sy'n briodol.

6.6. Mae'n bosibl y bydd RWM hefyd yn defnyddio meincnodi mewn cysylltiad â rhaglenni oddi tramor, prosiectau seilwaith eraill yn y DU a phrosiectau sy'n cynnwys y gymuned, a hynny i lywio ei ddull o werthuso.

6.7. Mae'r Broses Leoli seiliedig ar gydsyniad a nodir yn y polisi Gweithio gyda Chymunedau yn berthnasol ar ben y prosesau cynllunio defnydd tir a phrosesau rheoleiddiol a fydd yn berthnasol i ddatblygiad o'r math a'r cymhlethdod hwn; bydd yr holl gyfleoedd arferol i'r cyhoedd graffu ar ddatblygiad prosiect seilwaith mor fawr a dweud eu dweud amdano yn aros yr un fath.

# 7 Sut mae cymryd rhan

7.1. Rydym wedi cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn ar-lein yn **gwaredu daearegol**
Gellir ei lwytho i lawr fel PDF mae modd ei argraffu o'r wefan hefyd.

7.2. Os yw'n well gennych, gallwn anfon fersiwn wedi'i hargraffu drwy'r post atoch, ar gais i:

**Site Evaluation Team**
**Radioactive Waste Management**
**Building 587**
**Curie Avenue**
**Harwell Campus**
**Didcot OX11 0RH** Rhif ffôn: 0**300 0660 100**

## Sut mae ymateb

7.3. I wneud eich ymateb mor ddefnyddiol â phosibl, gofynnwn i chi ei lunio gan gyfeirio'n benodol at y cwestiynau a ofynnir ar ddiwedd yr adran hon. Serch hynny, mae croeso i chi gynnwys sylwadau pellach a thystiolaeth ategol hefyd. Mae croeso i chi gyflwyno tystiolaeth i gefnogi eich ymateb a bydd RWM yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadl a thystiolaeth nag ymatebion sydd ddim ond yn mynegi cefnogaeth neu wrthwynebiad.

7.4. A fyddech cystal â'i gwneud hi'n glir a ydy'r safbwyntiau rydych yn eu cyflwyno yn perthyn i unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a sut cafodd barn aelodau ei chasglu, os ydy hynny'n berthnasol.

7.5. Os byddai'n well gennych ymateb dros e-bost neu mewn llythyr, byddai'n ddefnyddiol iawn pe baech yn defnyddio ein templed ymateb. Gellir ei lwytho i lawr fel PDF neu ddogfen Word yn: **gwaredu daearegol** neu gallwn ddarparu copi electronig neu bapur ar gais. Serch hynny, byddwn yn ystyried pob ymateb, p'un ai a ddarperir ar y templed ai peidio.

7.6. Anfonwch eich ymateb dros e-bost i: **gwerthusosafleoedd@nda.gov.uk** neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad uchod.

7.7. Gallwch gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar-lein drwy'r ddolen ar wefan RWM **gwaredu daearegol**

7.8. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad hwn neu fod angen mwy o wybodaeth arnoch am Werthuso Safleoedd, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy unrhyw o'r sianeli a nodir uchod.

## Cyfrinachedd a Diogelu Data

7.9. Pan fydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r prif bwyntiau a godwyd. Caiff aelodau o'r cyhoedd ofyn am gopi o'r ymatebion dan ddeddfwriaeth rhyddid gwybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UE) 2016/679 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os nad ydych yn dymuno i'ch ymateb, gan gynnwys eich enw, eich manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth bersonol arall fod ar gael i'r cyhoedd, nodwch hynny'n glir yn ysgrifenedig pan fyddwch yn anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad. Sylwch, os bydd eich cyfrifiadur yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd yn awtomatig, ni fydd hynny'n cael ei ystyried yn gais am gyfrinachedd.

7.10. Nid oes rhaid i chi roi unrhyw wybodaeth i ni, ac mae manylion ein Hysbysiad Preifatrwydd[38] ar gael ar ein gwefan. Mae'r Hysbysiad yn egluro sut byddwn yn storio ac yn defnyddio eich data personol a sut gallwch ofyn am gopi o'r wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch.

## Dull o Ymgynghori

7.11. Dylid nodi unrhyw sylwadau am ddull yr ymgynghoriad hwn yn ysgrifenedig a'u hanfon, wedi'u marcio â 'Site Evaluation Consultation', i:

**Radioactive Waste Management**
**Building 587**
**Curie Avenue**
**Harwell Campus**
**Didcot OX11 0RH** Neu dros e-bost i: **gdfenqcymru@nda.gov.uk**

[38] *www.gov.uk/government/publications/radioactive-waste-management-privacy-notice*

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1 yr Ymgynghoriad:**
**Ar wahân i'r Broses Leoli a r Gofynion Cyfreithiol a nodwyd, a oes unrhyw ffynonellau eraill o Ofynion lefel uchel y dylid eu hadlewyrchu yn y Gwerthusiad Safleoedd yn eich barn chi, ac os oes, pam hynny?**

**Cwestiwn 2:**
**Ydych chi'n cytuno â r Ffactorau Lleoli yr ydym wedi'u nodi? A oes unrhyw Ffactorau Lleoli eraill y dylid eu cynnwys, ac os oes, pam hynny?**

**Cwestiwn 3:**
**Ydych chi'n cytuno â r Ystyriaethau Gwerthuso yr ydym wedi'u nodi? A oes unrhyw Ystyriaethau Gwerthuso eraill y dylid eu cynnwys, ac os oes, pam hynny?**

**Cwestiwn 4:**
**Ydych chi'n meddwl y dylem ystyried rhywbeth arall yn ein gwerthusiadau o safleoedd, ac os ydych chi, pam hynny?**

# Geirfa

**Asesiadau Cymharol** Asesiad o'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng dau safle neu fwy. Bydd dull RWM o drin asesiadau cymharol yn seiliedig ar ddull agored a thryloyw sy'n seiliedig ar ystyriaeth gyfannol o'r Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso sylfaenol, yn ogystal ag i ba raddau mae'r gymuned wedi ymgysylltu.

**Partneriaeth Gymunedol** Y bartneriaeth rhwng yr aelodau o'r gymuned, o leiaf un awdurdod lleol perthnasol a RWM, a fydd yn gyfrwng i rannu gwybodaeth â'r gymuned ac i ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau sydd gan y gymuned am waredu daearegol, y broses leoli a sut gallan nhw, fel cymuned, elwa.

**Achos Diogelwch y System Waredu** Dogfen 'generig' heb fod yn benodol i safle a gynhyrchwyd gan RWM i nodi'r gofynion lefel uchel a thechnegol ar reoli sefydliadol RWM, dewis a gwerthuso safleoedd a dylunio, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol er mwyn i'r system waredu allu diwallu ei hangen sylfaenol.

**Manyleb System Waredu** Dogfen a gynhyrchwyd gan RWM i nodi'r gofynion lefel uchel a thechnegol ar reoli sefydliadol RWM, dewis a gwerthuso safleoedd a dylunio, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol er mwyn i'r system waredu allu diwallu ei hangen sylfaenol.

**Ystyriaethau Gwerthuso** Yr ystyriaethau gwerthuso sy'n sail i bob un o'r chwe Ffactor Lleoli ac a fydd yn cael eu defnyddio i lywio ein gwerthusiadau o safleoedd a'n trafodaethau â chymunedau.

**Gwaredu daearegol** Dewis rheoli tymor hir sy'n cynnwys gosod gwastraff ymbelydrol mewn storfa neu gyfleuster gwaredu daearegol wedi'i greu dan y ddaear, lle mae'r ddaeareg (strwythur creigiau) yn rhwystro ymbelydredd rhag dianc.

**Gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd** Mae gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn cynnwys y categorïau canlynol o wastraff ymbelydrol: gwastraff lefel uchel, gwastraff lefel ganolraddol, cyfran fach o wastraff lefel isel gyda chrynodiad o radioniwclidau penodol sy'n ddigon i rwystro ei waredu fel gwastraff lefel isel.

**Trafodaethau Cychwynnol** Cyswllt cynnar â Pharti â Diddordeb i'w helpu: i gael mwy o wybodaeth am y Broses Leoli;
i ddeall a allai safle/ardal a gynigir gynnig lleoliad i gyfleuster gwaredu daearegol;
ac i benderfynu a yw am fwrw ymlaen â'i ddiddordeb.

**Cyflenwad gwaredu** Y mathau penodol o wastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (a deunydd niwclear y gellid ei ystyried yn wastraff) a fydd yn cael ei waredu mewn Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**Gofynion Cyfreithiol** Y gofynion sy'n deillio o'r prif offerynnau a threfnau deddfwriaethol a rheoleiddiol (yn ogystal ag unrhyw ganllawiau cysylltiedig perthnasol ynghylch y trefniadau hynny) sy'n ymwneud â dylunio, asesu, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**Sgrinio Daearegol Cenedlaethol** Ymarfer a gyflawnir gan RWM sy'n casglu ynghyd gwybodaeth ddaearegol lefel uchel, sy'n berthnasol i ddylunio Cyfleuster Gwaredu Daearegol, o bob cwr o'r wlad.

**Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear** Corff cyhoeddus anadrannol a gafodd ei sefydlu yn sgil Deddf Ynni 2004. Mae'n awdurdod strategol sy'n berchen ar 17 o safleoedd niwclear yn y DU.

**Awdurdodau Lleol Perthnasol** Awdurdodau lleol perthnasol ydy'r awdurdodau unedol sy'n cynrychioli'r Ardal Chwilio neu'r Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad gyfan neu ran ohoni.

**Radioactive Waste Management Ltd (RWM)** Datblygwr Cyfleuster Gwaredu Daearegol ac is-gwmni sydd o dan berchnogaeth lwyr yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear.

**Gofynion** At ei gilydd, Gofynion y Broses Leoli a'r Gofynion Cyfreithiol.

**Ardal Chwilio** Yr Ardal Chwilio ydy'r ardal ddaearyddol sy'n cynnwys yr holl ardaloedd cyngor cymuned y bydd RWM yn gallu ystyried yn safleoedd a allai gynnig lleoliad i gyfleuster gwaredu daearegol. O ran ardaloedd sy'n cynnwys y posibilrwydd o ddatblygu o dan wely'r môr, bydd yr Ardal Chwilio ddim ond yn cynnwys yr ardal ar y tir.

**Ffactorau Lleoli** Y chwe Ffactor Lleoli sydd wedi cael eu dewis i adlewyrchu'r hyn mae RWM yn ei gredu, ar sail prosiectau Cyfleuster Gwaredu Daearegol rhyngwladol a phrosiectau seilwaith yn y DU sy'n debyg o ran eu maint a'u cymhlethdod, sy'n debygol o fod y prif feysydd i ganolbwyntio arnynt wrth drafod â chymunedau sy'n cymryd rhan yn y Broses Leoli. Bwriad y chwe Ffactor Lleoli ydy helpu cymunedau i ddeall yr amrywiol faterion y bydd yn rhaid i RWM eu hystyried yn anochel wrth iddo werthuso pa mor addas ydy safleoedd i gynnig lleoliad i gyfleuster gwaredu daearegol yn unol â'r Gofynion perthnasol.

Dyma'r Ffactorau Lleoli:

- Diogelwch
- Y Gymuned
- Yr Amgylchedd
- Ymarferoldeb Peirianyddol
- Trafnidiaeth
- Cost

**Y Broses Leoli** Y dull seiliedig ar gydsyniad a sefydlwyd gan bolisi'r Llywodraeth, yn arbennig y polisi Gweithio gyda Chymunedau, i RWM ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a'r awdurdodau lleol perthnasol yng Nghymru er mwyn nodi lleoliad addas ar gyfer datblygu, gweithredu ac, yn y pen draw, cau Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**Gofynion y Broses Leoli** Mae Gofynion y Broses Leoli yn deillio o bolisi Gweithio gyda Chymunedau y Llywodraeth, sy'n nodi sut bydd RWM yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a phartïon a diddordeb a'r awdurdodau lleol sy'n cynrychioli'r cymunedau hynny i ddod o hyd i safle addas ar gyfer datblygu Cyfleuster Gwaredu Daearegol.

**Gweithgor** Mae'r Gweithgor yn cael ei ffurfio yn gynnar yn y broses er mwyn casglu gwybodaeth am y gymuned a rhoi gwybodaeth am waredu daearegol i'r gymuned cyn caiff Partneriaeth Gymunedol ei ffurfio. Mae'n cynnwys y Parti â Diddordeb, RWM, hwylusydd annibynnol, cadeirydd annibynnol ac unrhyw awdurdodau lleol sy'n dymuno ymuno.

**Polisi Gweithio gyda** Chymunedau Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Gweithio gyda Chymunedau – Llywodraeth Cymru.

# Atodiad A – Gweinyddiaethau Datganoledig

**8.1.** Yn Lloegr, mae'r fframwaith polisi cyffredinol ar gyfer rhoi'r rhaglen gwaredu daearegol ar waith wedi'i nodi yn *Implementing Geological Disposal – Working with Communities, An updated framework for the long-term management of higher activity radioactive waste.*

**8.2.** Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am sicrhau na fydd unrhyw gyfleuster gwaredu daearegol arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd, ar iechyd nac ar ddiogelwch yng Ngogledd Iwerddon. Byddai unrhyw benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch polisi mewn cysylltiad â gwaredu daearegol yng Ngogledd Iwerddon yn fater i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon, sydd wedi'i hatal ar hyn o bryd.

**8.3.** Nid yw Llywodraeth yr Alban yn noddi'r rhaglen gwaredu daearegol ond mae'n dal wedi ymrwymo i ddelio'n gyfrifol â gwastraff ymbelydrol sy'n cael ei gynhyrchu yn yr Alban. Ym mis Ionawr 2011, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Pholisi Gwastraff Uwch ei Actifedd[39]. Yn ôl polisi Llywodraeth yr Alban, dylid rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir mewn cyfleusterau agos i'r wyneb. Dylid lleoli cyfleusterau mor agos â phosibl i'r safleoedd lle mae'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu. Er nad ydy Llywodraeth yr Alban yn cefnogi gwaredu daearegol dwfn i'r Alban mae'n parhau, ynghyd â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, i gefnogi rhaglen gadarn o storio dros dro a rhaglen barhaus o ymchwil a datblygu.

[39] *Polisi Llywodraeth yr Alban ar gyfer Gwastraff Uwch ei Actifedd, 2011*

# Atodiad B - Gofynion Cyfreithiol

**8.4.** Fel y nodir uchod, bydd y Gofynion Cyfreithiol yn hollbwysig yn ystod y Broses Leoli. Bydd yn rhaid i RWM wneud yn siŵr bod ei werthusiadau o safleoedd yn gyson â'r Gofynion Cyfreithiol a bod y gwerthusiadau'n casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i gyfeirio a llywio ei geisiadau dilynol am y cydsyniadau perthnasol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Atodiad hwn yn rhoi trosolwg cryno o'r hyn mae RWM yn ei ystyried yn Ofynion Cyfreithiol allweddol y bydd yn rhaid eu hystyried drwy gydol y Broses Leoli, ac sydd felly wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Ffactorau Lleoli a'r Ystyriaethau Gwerthuso.

**8.5.** Dylid nodi, yng nghyd-destun y Gofynion Cyfreithiol sy'n cael eu trafod isod, nad oes gan reoleiddwyr niwclear ac amgylcheddol annibynnol y DU rôl ffurfiol wrth ddewis safle ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Mae eu rôl reoleiddio'n dechrau dim ond ar ôl dewis safle(oedd) am ragor o ymchwiliadau. Bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft, rôl ffurfiol a fydd yn dechrau pan fydd safleoedd yn cael eu dewis ar gyfer ymchwiliadau tyllau turio dwfn, a bydd gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear rôl ffurfiol a fydd yn dechrau pan fydd safle wedi cael ei ddewis ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol a bod y broses trwyddedu safle niwclear wedi dechrau. Bydd y rheoleiddwyr yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ôl y gofyn er mwyn esbonio'r prosesau rheoleiddiol a'u rôl. Ni fyddant yn trwyddedu nac yn caniatáu Cyfleuster Gwaredu Daearegol oni bai y gellir dangos ei fod yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol llym o ran diogelu pobl a'r amgylchedd.

## Cynllunio defnydd tir

**8.6.** Bydd angen cydsyniad cynllunio defnydd tir ar seilwaith gwaredu daearegol. Byddai ceisiadau am ganiatâd cynllunio yn cael eu gwneud i'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol a fydd yn gartref i'r seilwaith ar yr wyneb.

**8.7.** Mae'r fframwaith polisi cynllunio cyffredinol yng Nghymru wedi'i ddarparu gan Bolisi Cynllunio Cymru[40] a'i ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol a Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau, ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau gweithdrefnol mewn cylchlythyrau. At ei gilydd, mae'r rhain yn gosod y cyd-destun ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol a gwneud penderfyniadau ynghylch pob math o gynigion datblygu yng Nghymru. Mae Adran 70(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn amodi, wrth ddelio â chais am ganiatâd cynllunio, bod yn rhaid i awdurdod cynllunio lleol ystyried darpariaethau'r Cynllun Datblygu Lleol i'r graddau sy'n berthnasol i'r cais, ac unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Mae Adran 1 Polisi Cynllunio Cymru, "Rheoli Datblygiadau Newydd" yn darparu rhagor o wybodaeth am ystyriaethau perthnasol.

**8.8.** Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 fframwaith wedi'i foderneiddio ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cynllunio yng Nghymru, gan gynnwys yr egwyddor o gategori datblygu newydd ar gyfer y ceisiadau cynllunio datganoledig mwyaf o ran eu maint a'u cymhlethdod technegol yng Nghymru, lle byddai Gweinidogion Cymru yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol ydy enw'r categori datblygu newydd ar gyfer y ceisiadau cynllunio seilwaith mwyaf.

8.9. Mae'r polisi ar gyfer defnyddio'r drefn gynllunio newydd yng Nghymru yn dal yn cael ei ddatblygu. Ym mis Ebrill 2018, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar newidiadau i'r broses o roi cydsyniad i seilwaith yng Nghymru[41][42]. Mae'r ymgynghoriad yn nodi y bydd "datblygiad sy'n cynnwys creu un neu fwy o dyllau turio, a chyflawni unrhyw waith cloddio neu adeiladu cysylltiedig, yn bennaf at ddiben casglu gwybodaeth, data neu samplau er mwyn pennu pa mor addas yw safle ar gyfer y gwaith adeiladu neu ei ddefnyddio fel cyfleuster gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol sy'n fwy na 200 metr o ddyfnder" yn cael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith yng Nghymru ac yn ddarostyngedig i broses Caniatâd Seilwaith yng Nghymru. Yn y broses hon, byddai Gweinidogion Cymru yn gweithredu fel yr awdurdod cydsynio.

[40] *Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10, Rhagfyr 2018) ydy'r polisi cynllunio defnydd tir yng Nghymru. Gweler:* ***https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf***

[41] *Llywodraeth Cymru, Dogfen Ymgynghori, Newidiadau i'r broses o roi caniatâd seilwaith: Tuag at sefydlu proses bwrpasol ar gyfer rhoi caniatâd seilwaith yng Nghymru, 30 Ebrill 2018. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 23 Gorffennaf 2018.* ***https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-newidiadau-i-gymeradwyo-gwaith-datblygur-seilwaith.pdf***

[42] *Mae Paragraff 4.62 yr ymgynghoriad yn datgan "...O ystyried maint, hirhoedledd a phwysigrwydd cenedlaethol unrhyw gyfleuster o'r fath, byddai'n briodol mai PSC*

## Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

**9.0.** Mae trefn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol wedi'i dylunio i ddiogelu'r amgylchedd drwy wneud yn siŵr bod effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol y datblygiad arfaethedig yn cael eu hasesu a'u hystyried yn iawn yn ystod y broses gydsynio.

**9.1.** Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer nodi pa brosiectau ddylai fod yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ac, wedi hynny, ar gyfer asesu, ymgynghori a dod i benderfyniad ynghylch y prosiectau hynny sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd.

**9.2.** Mewn amgylchiadau lle mae'r datblygiad arfaethedig yn destun Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, rhaid i'r sawl sy'n ceisio caniatâd baratoi a chyflwyno Datganiad Amgylcheddol i'r awdurdod cydsynio perthnasol. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol yn nodi pa wybodaeth i'w chynnwys mewn Datganiad Amgylcheddol.

**9.3.** Bydd effeithiau amgylcheddol unrhyw ddatblygiad mae RWM yn ei gynnig yn cael eu hasesu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r cais am ddatblygiad, wedi'i gefnogi gan Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn ôl y gofyn.

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

**9.4.** Mae gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd[43] a'r Rheoliadau Cynefinoedd[44] yn berthnasol i gynlluniau a phrosiectau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd a warchodir.

**9.5.** Mae Erthygl 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn amodi, lle byddai cynllun neu brosiect arfaethedig yn debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd a warchodir, boed hynny ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, rhaid cynnal asesiad priodol i bennu hyd a lled yr effaith ar safleoedd Ewropeaidd a warchodir.

**9.6.** Mewn amgylchiadau lle mae'r asesiad priodol yn pennu na fyddai'r cynllun neu'r prosiect yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle(oedd) Ewropeaidd, ceir cymeradwyo'r cynllun neu'r prosiect.

**9.7.** Mewn amgylchiadau lle mae'r asesiad priodol yn pennu y byddai'r cynllun neu'r prosiect yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle(oedd) Ewropeaidd, ceir cymeradwyo'r cynllun neu'r prosiect ar yr amod:

- nad oes atebion amgen; a
- bod yn rhaid cyflawni'r cynllun neu'r prosiect er hynny am resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig; a
- bod mesurau cydbwyso'n cael eu rhoi ar waith.

**9.8.** Bydd yn rhaid i RWM o reidrwydd ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Rheoliadau Cynefinoedd yn agos drwy gydol y Broses Leoli, er mwyn pennu a fyddai'r datblygiad arfaethedig o seilwaith Cyfleuster Gwaredu Daearegol mewn lleoliad daearyddol penodol yn debygol o effeithio ar safle(oedd) Ewropeaidd. Bydd RWM yn ymgysylltu'n agos â Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyn o beth.

**9.9.** Lle bo'n briodol, bydd RWM yn paratoi Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i gefnogi ei geisiadau am gydsyniad datblygu. Bydd yr Asesiad hwn yn dadansoddi effaith bosibl y datblygiad arfaethedig ar unrhyw safle(oedd) Ewropeaidd perthnasol.

[43] *Cyfarwyddeb 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt*
[44] *Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, OS 2017/1012*

## Trwyddedu Safle Niwclear

**9.10.** Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn trwyddedu safleoedd niwclear ac yn gyfrifol am reoleiddio diogelwch ar safleoedd niwclear trwyddedig ym Mhrydain Fawr. Yn ogystal, mae'r Swyddfa'n rheoleiddio diogelwch cludo deunydd ymbelydrol ac yn chwarae rôl allweddol yn sicrhau bod rhwymedigaethau diogelu rhyngwladol y DU yn cael eu bodloni.

**9.11.** Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn safle niwclear rhagnodedig dan adran 1 Deddf Safleoedd Niwclear 1965. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid cael trwydded safle niwclear yn ystod camau adeiladu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Bydd cydymffurfio ag amodau'r drwydded yn sicrhau bod pob agwedd ar gyfleuster yn cydymffurfio â'r gofynion diogelwch llym, gan gynnwys ei ddyluniad cyffredinol. Byddai'r drwydded safle niwclear ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol yng Nghymru (neu yn Lloegr) yn cael ei rhoi a'i rheoleiddio wedi hynny gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear.

**9.12.** Bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear a Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'i gilydd wrth reoleiddio'r gwaith o reoli a storio gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd mewn safleoedd niwclear trwyddedig, i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch rheoli'r gwastraff hwnnw'n ystyried sut bydd gwastraff wedi'i gyflyru'n cael ei waredu yn ogystal â'r ystyriaethau o ran diogelwch niwclear.

**9.13.** Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn gyfrifol am reoleiddio'r gofynion iechyd a diogelwch confensiynol ar safleoedd niwclear trwyddedig hefyd. Fodd bynnag, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fydd yn gyfrifol am reoleiddio'r elfennau iechyd a diogelwch confensiynol o weithgareddau penodol sy'n cael eu cyflawni yn ystod y Broses Leoli (hy cyn rhoi trwydded safle niwclear) – er enghraifft, o ran ymchwiliadau ar yr wyneb lle mae tyllau turio dwfn yn cael eu drilio i ymchwilio i nodweddion daearegol ardal ddaearyddol benodol.

## Trwyddedu Amgylcheddol

**9.14.** Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am weithredu a gorfodi deddfwriaeth diogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Mae ei feysydd cyfrifoldeb yn cynnwys llygredd amgylcheddol, rheoli gwastraff, rheoli'r perygl o lifogydd, adnoddau dŵr, pysgodfeydd a chadwraeth. Mae hefyd yn rheoleiddio'r gwaith o waredu gwastraff ymbelydrol o safleoedd niwclear trwyddedig ac o adeiladau eraill sy'n defnyddio sylweddau ymbelydrol. Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yn cynnwys gollyngiadau ymbelydrol i'r aer a dŵr, a gwaredu gwastraff solid i dir gan gynnwys gwaredu yn y Storfa Gwastraff Lefel Isel, a gwaredu daearegol.

**9.15.** Mae'r Canllawiau ar Ofynion Awdurdodi yn nodi'r gofynion ar gyfer achos diogelwch amgylcheddol tymor hir i gyfleuster gwaredu daearegol; mae'r canllawiau hyn yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr. Dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016, mae'n rhaid cael Trwydded Amgylcheddol ar gyfer 'gwaith ymchwilio ymwthiol'; mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid cael Trwydded Amgylcheddol ar gyfer y tyllau turio sydd eu hangen i ymchwilio safle, ac y bydd proses awdurdodi cam-wrth-gam yn dilyn hyn wrth i RWM ddatblygu ei asesiadau diogelwch ar gyfer ymchwilio, adeiladu a gweithredu dan y ddaear.

**9.16.** Yng nghyd-destun rheoleiddio amgylcheddol, dylid nodi y bydd datblygu a gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol yng Nghymru yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ac, os caiff safle arfordirol ei ddewis, Llywodraeth Cymru. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldebau penodol ar gyfer gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys ei dir, fflora a ffawna, amgylcheddau dŵr croyw a morol, y ddaeareg a phriddoedd yn cael eu diogelu a'u gwella. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am drwyddedu morol ar hyd y glannau ac ar y môr yng Nghymru.

**9.17.** Yn unol â Rhan 3 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Gweinidogion Cymru ydy'r Awdurdod Cynllunio Morol ar gyfer ardaloedd sydd ar hyd y glannau ac ar y môr yng Nghymru. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer (a'r ddyletswydd weithiau) i baratoi cynllun morol ar gyfer ardal sy'n cynnwys eu trefn cynllunio morol gyfan neu ran ohoni. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ei Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru cyntaf yn 2017. Ar ôl i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo, y nod ydy cyhoeddi'r Cynllun cyntaf yn 2019. O ganlyniad, mae gan Awdurdod Cynllunio Morol a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithredu a datblygu'r Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru cyntaf yn ogystal â rôl yn y gwaith o drwyddedu, rheoleiddio a chynllunio gweithgareddau morol yn y moroedd o amgylch Cymru.

## Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth am waith y DU i ddelio â gwastraff ymbelydrol

E-bostiwch
**gdfenqcymru@nda.gov.uk**

Dilynwch ni ar Twitter

**@rwm_gdf_uk**
**@rwm_community**

neu ewch i wefan yr ymgyrch

**gwaredu daearegol**

Radioactive Waste Management